

Dameg y tiroedd comin — defnydd afradlon ar adnoddau cyffredin

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn gofyn sut y mae osgoi gorddefnyddio tir comin ac adnoddau tebyg i bysgodfa Grand Banks Newfoundland?

O LANLLECHID ar lethrau'r Carneddau i Gefn Bryn ym Mhenrhyn Gŵyr, rydym yn gyfarwydd â thiroedd comin. Trwy'r rheiny caiff grŵp dethol o bobol rannu hawliau i bori neu i dorri mawn neu hel coed tân ar ddarn o dir.

Ar un cyfnod, roedd trefn gadarn yn rheoli tiroedd comin ond, yn aml erbyn hyn, bydd ffrwgd yn codi tros yr hawliau.

Bydd un neu ddau yn mynnu mwy na'u siâr gydnabyddedig o'r adnodd, ac yn naturiol, bydd y gweddill yn grwgnach. Neu, weithiau, mae'r grŵp cyfan yn gorddefnyddio'r comin ac yn tansellio'i werth iddyn nhw eu hunan.

Er bod y tir comin yn perthyn i rywun (y Goron efallai), mae'r adnoddau defnyddiol yn asedau cyffredin – heb berchennog uniongyrchol. Yn debyg i'r awyr yr ydym yn ei anadlu a'r môr mawr a'i bysgod.

Wrth gwrs, ryden ni un ac oll yn ddibynol ar yr adnoddau cyffredin hyn. Ac, fel yn achos y tiroedd comin, bydd anghydfod yn codi os bydd unigolion neu wledydd yn mynnu mwy na'u siâr neu os yw defnydd pawb gyda'i gilydd yn drymach nag y gall yr adnodd ei wrthsefyll.

GORFOD GWAHARDD PYSGOTA AR Y GRAND BANKS

Enghraifft drawiadol o hyn yw pysgodfa'r Grand Banks ger Newfoundland yng Nghanada. Roedd pysgotwyr o America ac Ewrop yn mynd yno am ganrifoedd i ddal cynhaeaf da o benfras. Ond yn sgil 'gwelliannau' yn y dechnoleg a gor-bysgota, diflannodd yr helfa.

Yn 1992 bu rhaid i lywodraeth Canada wahardd pysgota yn gyfan gwbl yno a, hyd heddiw, fwy nag 20 mlynedd yn ddiweddarach, bach iawn yw'r newid.

Dyma beth yw "trychineb y comin", sef y duedd i ddefnyddio adnoddau cyffredin yn afrad.

Problem debyg, ond llawer mwy dwys, yw'r ffordd y mae ein gofynion personol a diwydiannol yn llygru ein moroedd a'n hawyr gyda chemegolion, gan gynnwys nwy CO₂.

Sialens anodd yw rheoli'r CO₂. Yn ogystal â gollwng mwy na'n siâr am fwy na chanrif a hanner, mae CO₂ yn aros yn yr atmosffer am ddegawdau. Bydd ein gweithgareddau rŵan yn dylanwadu ar y Ddaear yn yr 22ail ganrif.

Felly, mae'r gwledydd llai datblygedig yn dadlau bod rhaid i ni, yn ogystal â thorri ein hallyrion presennol yn sylweddol, ystyried hanes a chydabod bod gynnon ni 'ddyled' garbon oherwydd ein gorddefnydd hanesyddol.

O ganlyniad, methiant fu cynadleddau Copenhagen 2009, Cancun 2010, Doha 2011, Durban 2012. Er i Brotocol Kyoto gael ei lofnodi yn 1997, a dod i rym yn 2005, mae'n annigonol. Yn waeth byth, tynnodd yr Unol Daleithiau allan a fu China, y ffynhonnell fawr arall o CO₂, ddim yn rhan o'r fargen erioed.

Y CWMNIAU MAWR YN CAEL RHEOLI'R FARCHNAD YNNI

Yn ôl cyfaill a fu yn y cynadleddau, mae yna broblem arall, lai adnabyddus.

Yng Nghopenhagen, cytunodd y 'Gorllewin' i greu cronfa o \$100 biliwn y flwyddyn o 2020 ymlaen i dalu am brosiectau i leihau allyrion o'r gwledydd llai datblygedig.

Ond mae ein llywodraethau'n mynnu bod yr arian yn cael ei wario trwy'r cwmnïau mawr gan eu galluogi i reoli, neu o leiaf ddylanwadu'n drwm, ar y farchnad ynni fyd-eang. Dim syndod bod rhai gwledydd yn gyndyn iawn o dderbyn y 'cynnig hael'.

Anodd felly gweld sut y mae osgoi gorddefnydd, fel y bu hi ar y Grand Banks – ond y cymer hi ganrifoedd nid degawdau i ailsefydlu.

O gymharu, mae problem y tiroedd comin yn ymddangos yn bitw. Ond yr un yw'r egwyddor: y broblem sylfaenol yw ein hymateb i ddameg y 'comin', sef yr angen i dorri'n ôl ar ollwng lefelau uchel o CO₂ i'r awyr pan fo hunan les cymaint ohonon ni a dylanwad y cyfoethog yn dibynnu ar barhau i wneud hynny.

[Mai 30, 2013]